**Julie James AC/AM**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: MA-P-JJ-3394-19
Ein cyf/Our ref: MA-P-JJ-3394-19

29 Tachwedd 2019

Annwyl John

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 4 Tachwedd, ar ôl imi fod yng nghyfarfod y Pwyllgor Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. Rwy'n falch bod y Pwyllgor yn cydnabod mor gyflym rydym yn gweithio i atal digartrefedd a chymaint o frys sydd yna i wneud hynny, yn enwedig mewn perthynas ag argymhellion tymor byr y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd.

Ar 8 Hydref 2019, cyhoeddwyd dull gweithredu strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer atal digartrefedd ac mae'n amlinellu'r ffordd y mae angen gweithio ar draws y gwasanaethau cyhoeddus er mwyn mynd i'r afael â digartrefedd o bob math; atal y broblem rhag codi yn y lle cyntaf ac ailgartrefu pobl yn fuan sy'n cael y lle blaenaf. Er y bydd pawb yn gytûn ynghylch y rhan fwyaf o'r atebion i ddigartrefedd, rwy'n cydnabod yr angen i weithredu'n wahanol gyda gwahanol grwpiau. Mae ein fframwaith strategol yn caniatáu ar gyfer hyn, ac un o'r prif egwyddorion polisi yw y dylai pob gwasanaeth roi'r lle canolog i'r unigolyn. Fodd bynnag, yn y bôn, rydym am greu system sy'n gweithio i bawb.

Fel y nodais yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor, rydym yn cydnabod y berthynas gymhleth rhwng camddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl ac anghenion llety. I gefnogi ein ffordd o weithio ar draws y Llywodraeth, rydym wedi cytuno ar gamau cyffredin yng Nghynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau 2019 i 2022, a Chynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019 i 2022 - mae'r ddau gynllun wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod yr haf. Mae'r ddau gynllun yn nodi camau sy'n rhoi blaenoriaeth i dai a'r angen i gefnogi unigolion sydd ag anghenion cymhleth a/neu sydd â mwy nag un angen cymhleth.

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, soniais am gyllid ychwanegol penodol ar gyfer y rheini sydd ag anghenion cymhleth, hy cyllid o'r gyllideb iechyd sydd wedi'i ddarparu ar gyfer 2019-20 a 2020-21 i gefnogi'r flaenoriaeth hon, gan gynnwys cefnogi dull gweithredu Tai yn Gyntaf. Yn dilyn proses ymgeisio, cytunwyd ar gyllid yn ardaloedd Byrddau Iechyd Betsi Cadwaladr, Powys, Caerdydd a'r Fro, ac Aneurin Bevan, sef cyfanswm o £1.3m. Mae fy swyddogion a swyddogion iechyd hefyd yn cynnal trafodaethau yn ardal Bae Abertawe, o ystyried y lefel uchel o farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau sydd wedi'u cofnodi yn ystadegau swyddogol y DU.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel rydych yn ei gydnabod yn eich llythyr, rydym ar fin dechrau ar raglen newid uchelgeisiol. Rwy'n cytuno ei bod yn hollbwysig gwerthuso ac asesu effaith y newid hwnnw, yn benodol rhoi sylw i safbwyntiau'r rheini sy'n derbyn y cymorth a'r gwasanaethau. Un arall o'r egwyddorion polisi allweddol a amlinellir yn ein dull gweithredu strategol yw y dylai'r rheini sydd â phrofiad o'r gwasanaethau a ddarperir gydweithio i'w llywio. Bydd rhoi ein dull gweithredu ar waith, felly, yn golygu gwerthuso'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau drwy eu holi. Rydym eisoes yn cynnwys yr elfen werthuso yn y rhaglenni rydym wedi eu cychwyn, ee rydym wrthi'n cynnal gwerthusiad annibynnol o raglen Tai yn Gyntaf ac o'r prosiectau a gynhelir o dan y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc Ddigartref.

Rwy'n cydnabod y galw sydd yna ar bob un o'n gwasanaethau cyhoeddus, a dyna pam mae'n hollbwysig ein bod yn buddsoddi yn yr ymyriadau cynharaf y cydnabyddir eu bod fwyaf effeithiol a chost-effeithiol. Fel y nodais yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor, mae'n bwysig cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r cyllid yn sylweddol ers cyflwyno deddfwriaeth 2014 i atal a lleihau digartrefedd. Yn ogystal â chyllid ychwanegol drwy'r Grant Cynnal Refeniw, rydym yn darparu dros £20m y flwyddyn ariannol hon yn unig, yn benodol ar gyfer atal a lleihau digartrefedd, gan gynnwys cysgu allan.

Rydym hefyd yn sicrhau bod y cyllid ehangach ar gyfer cymorth tai yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol i atal a lleihau digartrefedd. Mae datblygu'r Grant Cymorth Tai wedi rhoi cyfle inni sicrhau mwy o gysondeb o ran y Grantiau Cefnogi Pobl ac Atal Digartrefedd a chanllawiau i sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau a gwasanaethau cydgysylltiedig. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn datblygu'n gyflym yn ystod y flwyddyn, a chan gydweithio'n agos â rhanddeiliaid, rydym wrthi'n ymgynghori ar hyn o bryd ar ganllawiau diwygiedig y Grant Cymorth Tai.

Rwyf am ddiolch unwaith eto i'r Pwyllgor am barhau i ymddiddori yn y maes hollbwysig hwn, sy'n galw am ymdrech gan bawb ar draws y Gwasanaethau Cyhoeddus yn Nghymru os ydym i gyrraedd ein nod cyffredin, sef rhoi terfyn ar ddigartrefedd.

Yn gywir

**Julie James AC/AM**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol